

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Cyd-Pwyllgor Dethol held at Remote Meeting on Dydd Llun, 2ail Tachwedd, 2020 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor L.Dymock (Chairman)  
County Councillor P.Pavia, (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, J.Becker, A.Davies, , A. Easson, R.Roden, V. Smith, B. Strong, J.Treharne, A. Webb, S. Howarth, J.Pratt and S. Woodhouse

## Officers in Attendance

Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Mark Hand, Pennaeth Llundio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd  
Paul Keeble, Peiriannydd Grŵp (Priffyrdd a Rheoli Llifogydd)  
Graham Kinsella, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffordd  
Davina Hicks, Accountant  
Trudy Humber, Technical Assistant  
Neil Rosser, Civil Enforcement Manager  
Jose Bachoir  
Martin Dolan

## APOLOGIES:

### 1. Ethol Cadeirydd

Penodwyd y Cynghorydd Lisa Dymock yn Gadeirydd y pwyllgor hwn.

### 2. Penodi Is-Gadeirydd

Penodwyd y Cynghorydd Paul Pavia yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn.

### 3. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

### 4. Adolygu Parcio Ceir

**Cyflwynodd y swyddog Mark Hand yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r Aelodau, gyda sylwadau ychwanegol gan Neil Rosser.**

**A oes canllawiau cenedlaethol ar gyfer faint o gilfachau parcio mamau a babanod sydd angen bod mewn meysydd parcio?**

**Nid oes unrhyw ganllawiau cenedlaethol ar gyfer cilfachau parcio rhieni a phlant, na chilfachau parcio anabl. Codwyd y mater mewn cyfarfod ar y Cyd o Dasglu Cymru'r wythnos diwethaf, ond am y tro nid oes unrhyw ganllawiau inni gadw atynt.**

*Ydyn ni'n edrych ar y niferoedd cywir ar gyfer faint o gilfachau parcio sy'n gwasanaethu tref Cas-gwent, o gofio bod gan Ffordd yr Orsaf gilfachau parcio talu, er enghraifft?*

O fewn y taliadau parcio ceir a gyflwynwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, roedd cytundebau o fewn y cynigion cyllidebol i godi tâl ar rai meysydd parcio ychwanegol: maes parcio Gorsaf a maes parcio Ffordd yr Orsaf yng Nghas-gwent yw dau ohonynt. Fe wnaethon ni osod y peiriannau ond wnaethon ni ddim codi tâl bryd hynny. Rhan o'r rheswm oedd ei fod yn cynnwys gosod arwyddion newydd, ac awgrymais na ddylem ailosod yr arwyddion nes bod yr adolygiad wedi'i gwblhau. Mae gan yr arwyddion cyfredol ormod o ychwanegion ac elfennau dryslyd. O ystyried bod yr adolygiad yn cychwyn, fe wnaethom benderfynu peidio â chodi tâl yn y meysydd parcio hynny ar yr adeg hon, felly mae'r data yn dechnegol gywir ar hyn o bryd. Mae gennym gymeradwyaeth y Cabinet i godi tâl ynndynt ond gyda'u cytundeb, nid ydym wedi gwneud hynny. Os daw'r adolygiad i'r casgliad y dylai'r lleoedd hynny fod yn rhad ac am ddim, yna bydd y peiriannau talu yn cael eu symud a'u defnyddio mewn man arall.

### *Beth am gilfachau parcio '1 Awr Am Ddim'?*

Cymeradwyodd y Cyngor eu cyflwyniad fel mesur dros dro tan ddiwedd mis Medi, pryd y cytunwyd y byddent yn cael eu tynnu'n ôl. Yng Nghas-gwent, bu trafodaeth o amgylch y Cyngor Tref o bosibl yn ariannu'r cilfachau parcio rhad ac am ddim hynny tan y Nadolig. Mae 15 lle 30-munud am ddim o hyd ym maes parcio Stryd Gymreig. Rydyn ni'n mynd i lunio ffigurau ar gyfer y Fenni a Mynwy ar gyfer cynigion tebyg, rhag ofn bod gan y cynghorau tref hynny ddi-ddordeb. Mae'n debyg nad yw'n rhywbeth y gall ein cyllideb ei gymryd ar hyn o bryd.

*O ran y cynnig ar gyfer 10 cilfach parcio trydanu cerbyd trydanol yn Ffordd Jiwbilî, Cil-y-coed: mae cynlluniau posib i adeiladu eiddo yn yr ardal honno, ac ar hyn o bryd, byddai gennym 10 lle gwag. A oes gennym y cydbwysedd cywir rhwng hyn a Ffordd Woodstock?*

Byddwn yn codi'r mater o gydbwysedd gyda chydweithwyr. Bydd angen i ni ystyried y cwestiwn hwn ledled y sir. Mae angen i ni gael y cydbwysedd rhwng gwneud darpariaeth ac annog defnydd, a bod yn realistig ynghylch cyfraddau derbyn cerbydau trydanol cyfredol. Nid ydym am gael lleoedd yn eistedd yn wag ond, yn yr un modd, problem fawr i gymryd cerbyd trydanol a pherchnogion presennol yw'r diffyg darpariaeth drydanu.

*O ran twristiaid ac aros dros nos, pa mor bell i lawr y llwybr y mae adran Dwristiaeth Cyngor Sir Fynwy wedi cymryd yr awgrym hwn? A oes gofynion trwyddedu neu amgylcheddol, gofynion trydanol, ac ati?*

Nid oes yr un o'r trafodaethau hynny wedi digwydd eto - mae'n syniad newydd, ac fe'i hychwanegir at yr adolygiad hwn fel pwnc a awgrymir. Mae'n hollol gywir bod angen i ni ymgysylltu â Nicola Edwards ym maes Twristiaeth, cydweithwyr ym maes trwyddedu, a'r rhai sy'n cyflwyno'r cynnig, i ddeall yn llawn yr hyn yr hoffent ei gael. Mae gan lawer o faniau gwerysyla eu cyflenwad pŵer a'u cyfleusterau toiled eu hunain; mae'r cyfleusterau hynny'n fwy nodweddiadol o faes gwerysyla iawn, yn hytrach nag am gyfnod byr o 1-2 noson. Ond mae angen i ni eu hystyried, serch hynny.

*Mae trigolion Cas-gwent yn teimlo nad oes digon o leoedd bathodyn glas wedi'u dyrannu yn yr ardaloedd cywir. A ofynnir am ddata manylach ar ddefnyddio bathodyn glas?*

Mae'r data y mae'r cwmni allanol yn ei gasglu yn gymharol syml, gan ddefnyddio system ANPR (Cydnabod Plât Rhif Awtomatig) i recordio ceir sy'n mynd i mewn ac allan, a phenderfynu pa mor hir y maent wedi aros. Yna cawn ffynhonnell ddiennw o'r data hwnnw. Nid yw'n cysylltu â defnydd bathodyn glas yn y ffordd honno, gan fod y bathodyn yn eistedd gyda'r unigolyn, yn hytrach na'r cerbyd. Bydd yn rhaid i ni feddwl sut y gallwn gael y data defnydd penodol hwnnw. Dylid nodi y gall deiliad bathodyn glas barcio mewn unrhyw gilfach parcio yn y sir am ddim, er nad oes gan gilfachau parcio nad ydynt yn fathodyn-las y lled ychwanegol. Mae Cas-gwent yn arbennig o heriol oherwydd ei dopograffeg: daeth yn arbennig o amlwg yn ystod yr ymarfer Ailagor Trefi bod preswylwyr â symudedd cyfyngedig yn ei chael hi'n anodd graddiannau'r dref, ac mae angen i ni barhau i ystyried hyn.

*A ydym wedi ceisio unrhyw gyngor allanol, e.e. Anabledd Cymru, ar wefan Hygyrch Sir Fynwy, ac ar yr adolygiad hwn mewn perthynas â bathodynau glas?*

Mae hwn yn bwynt da iawn. Rydym wedi gofyn i grwpiau, gan gynnwys Tony Crowhurst (aelod cyfetholedig o Oedolion Dewis), a allent gynorthwyo gyda rhywfaint o'r wybodaeth am y llwybrau gorau rhwng meysydd parcio ac amwynderau allweddol. Dywedodd Mr Crowhurst ei fod eisoes wedi darparu'r wybodaeth honno i gydweithwyr; os nad oes gennym ni o hyd yna byddwn yn ail-ymgysylltu ag ef. Nid yw'r wefan yn rhan o'r adolygiad hwn; soniwyd ei fod yn digwydd. Ond gallwn ddod â Jan Whitham o Gyfathrebu i mewn yn ddiweddarach os hoffai'r Aelodau glywed mwy amdano.

*Sut mae gorfodaeth yn cael ei ystyried, yn enwedig mewn perthynas â gofodau bathodyn glas?*

Disgwylir i ddau aelod newydd o staff ddechrau ar 23<sup>ain</sup> Tachwedd. O ystyried amserlenni hyfforddi, gobeithiwn y byddant ar waith mewn mis. Yna bydd gennym dîm o 6 swyddog. Y cynllun yw y bydd gennym 2 swyddog yn y Fenni, Mynwy a Chas-gwent. Bydd un swyddog yn aros yn y dref trwy gydol y dydd tra bydd y llall yn mynd i unrhyw drefi a phentrefi yn yr ardal gyfagos. Felly bydd gennym lawer mwy o sylw i Sir Fynwy nag a gawsom o'r blaen, ar gyfer gorfodaeth ar y stryd ac oddi ar y stryd.

*A yw'r ffocws ar ganol trefi yn unig, neu a yw ardaloedd ymylol hefyd yn cael eu hystyried e.e. Bulwark yng Nghas-gwent?*

Mae'r ffocws newydd fod ar feysydd parcio canol y dref. Os yw'r grŵp am ystyried y rheini'n fwy ar y cyrion a meysydd eraill yna gallwn wneud hynny. Mae'r maes parcio ger siopau Bulwark yn eiddo preifat - rydym yn ceisio deall y berchnogaeth yn llawn - ond mae gennym feysydd parcio eraill yn yr ardal ehangach.

*A fydd yr adolygiad yn edrych ar y strwythur codi tâl, ac yn cyflwyno mwy o amserlenni 30 munud neu 1 awr?*

Bydd, rydym yn gofyn i aelodau edrych ar hyn. Rydym am edrych ar y canlyniadau bwriadol ac anfwriadol o wneud hynny i ni, y strydoedd mawr a symudiadau cerbydau/cyfeintiau traffig.

*Ydyn ni wedi ystyried yn llawn pwrpas defnyddio parcio, a chasglu'r data cywir?*

Mae hwn yn bwynt da. Bydd yr arolwg camerâu yn edrych ar hyd yr arhosiad, ac mae'n debyg y bydd yn rhoi syniad da inni a yw pobl yn weithwyr/cymudwyr yn erbyn siopwyr. Ond heblaw cynnal arolwg o bobl wrth iddynt barcio - nad yw'n rhan o'r cynnig ar hyn o bryd - nid yw'n glir sut y byddem yn cael y wybodaeth honno. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i ni fynd i ffwrdd a'i ystyried ymhellach. Mae'n debyg y bydd hyd yr arhosiad yn dweud rhywfaint o'r wybodaeth honno wrthym ond efallai nid y cyfan. Os yw'r pwyllgor hwn yn credu bod angen arnom ryw fath arall o arolwg yna byddai'n ddefnyddiol cael y cyfeiriad hwnnw a chlywed syniadau am sut y gallem fynd ati i wneud hynny.

*Beth yw ystyriaethau'r effeithiau neu'r manteision yng nghanol y dref? Mae angen ystyried y siopwyr tymor byr.*

Mae canol trefi yn ei chael hi'n anodd oherwydd amryw o resymau. Mae siopa ar y rhyngwrwyd wedi newid pethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Covid wedi eu newid eto. Gwyddom am effaith ardrethi busnes. Mae'n dal i gael ei weld a fydd y ddibyniaeth gynyddol ar siopa ar y rhyngwrwyd sy'n deillio o Covid yn parhau. Mae'r darlun cenedlaethol yn debyg iawn. Ymddengys mai cyfeiriad teithio yn gyffredinol yw y bydd canol trefi yn dod yn fwy o gyrchfan hamdden h.y. mynd am goffi a phrynu ychydig o bethau, yn hytrach na dod i ffwrdd â chist yn llawn bagiau siopa. Nid ydym yn deall yn iawn eto sut, ond mae canol y trefi yn bendant yn newid. Mae'r allwedd i'w hiechyd yn ymwneud â llawer mwy na pharcio ceir yn unig, mae'n ymwneud â'r cynnig mewn gwirionedd - atyniad corfforol y lle; rydym yn ceisio defnyddio Covid fel cyfle i ddylanwadu ar hyn gyda rhai o'n treialon dros dro. Mae yna gynigion eraill e.e. y cynllun yng Nghas-gwent i gynyddu'r marchnadoedd. Unwaith eto, mae cydbwysedd i'w gael rhwng parcio galw heibio/gollwng byr iawn i bobl fynd i mewn ar gyfer un neu ddwy o eitemau, sy'n wrthanogol i gefnogi busnes arall, efallai trwy brynu coffi hefyd. Gall Capita ein cefnogi i ddeall yr effeithiau ar batrymau teithio ac ar fusnesau.

*A allwn gysylltu lleoedd i'r anabl â'r cyfleusterau sydd ar gael h.y. gosod lifft yng ngorsaf Cas-gwent?*

Mae y tu hwnt i gylch gwaith y darn hwn o waith i benderfynu a ddylai'r orsaf gael lifft, ond mae'r pwynt ynghylch mynediad i'r anabl yn un perthnasol a bydd yn cael ei gadw mewn cof.

*Beth mae'r seren yn ei olygu yn y tabl yn 3.8 yr adroddiad?*

Roedd hynny i fod i fod yn droednodyn yn egluro bod 113 o leoedd yng Nghas-gwent yn cynnwys y rhai y gwnaethon ni eu trafod yn gynharach h.y. y lleoedd gyda pheiriannau talu sydd am ddim ar hyn o bryd.

*Mae sefyllfaoedd yn debygol o newid yn sylweddol dros y 6-12 mis nesaf. Sut ydyn ni'n mynd i ystyried hynny, h.y. yr adolygiad Covid cyffredol a'r adolygiad ôl-Covid?*

Yr awgrym fyddai ein bod yn parhau gyda'r adolygiad am y tro, gan gasglu mwy o dystiolaeth, ond ar y ddealltwriaeth y gallai fod angen ei adolygu ymhellach yn y dyfodol, o ystyried sefyllfa'r Covid - fel y nodwyd yn 5.1 yr adroddiad. Ni fydd yr adolygiad hwn yn ddigyfnawd, ond dylid ei ailystyried yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i sefyllfa Covid newid.

*Yn y Fenni, mae ymwelwyr/siopwyr/gweithwyr yn effeithio'n ddifrifol ar drigolion sy'n byw yn agos i'r dref wrth barcio'u ceir yna. A fydd hyn yn cael ei adolygu, ynghyd â gweddill y parcio ceir?*

Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i ni ei gwmpasu. Mae Argymhelliad 1 yn cynnwys parcio ar y stryd o amgylch canol trefi a phentrefi. Mae'n debyg mai ystyried yn bennaf a ddylai fod cyfyngiadau pwysoli neu godi tâl. Ysgogwyd rhan o hynny gan Fagwyr yn ystod yr ymarfer Ailagor Trefi: mae rhai lleoedd parcio yn y sgwâr y mae busnesau a thrigolion lleol wedi cytuno i beidio â'u defnyddio, er mwyn eu cadw'n rhydd i gwsmeriaid. Felly fel rhan o'r un argymhelliad, gallem edrych i weld a oes ardaloedd yn ffinio â chanol trefi a ddylai efallai gael trwyddedau parcio preswyl wedi'u cyflwyno, yn enwedig os oes newidiadau i ffioedd a allai olygu bod pobl yn ceisio parcio mwy mewn strydoedd cyfagos - byddai hyn canlyniad anfwriadol arall y bydd angen i ni ei ystyried. Rydym wedi cael cynnig gan Gyngor Tref y Fenni ar gyfer rhai strydoedd ger canol y dref; byddwn yn ystyried hynny ar wahân i'r broses hon.

*Sut mae aelodau eraill yn rhan o'r broses?*

Efallai y gallem edrych ar hyn wrth edrych ar amserlen y cyfarfodydd, a sut rydym yn trefnu trafodaeth nodwedd - p'un a yw'n weithdai, gweithgor, is-bwyllgor, neu gydbwyllgor. Gallai'r pwyllgor ystyried hwn.

*A roddwyd unrhyw ystyriaeth i barcio am ddim ar ôl amser penodol, e.e. 3yp?*

Nid yw'n rhywbeth sydd wedi'i ystyried yn fanwl, gan mai dyma ddechrau'r broses i raddau helaeth. Ond mae'n rhywbeth y gallem edrych arno wrth inni symud ymlaen, fel rhan o'r adolygiad hwn. Mewn ffordd gysylltiedig, awgrymwyd y dylem gael parcio byr iawn am ddim ar gyfer gollwng ysgolion - gallem hefyd edrych ar hynny. Ond, unwaith eto, bydd yn rhaid i ni ei gydbwyso â chanlyniadau anfwriadol h.y. a yw hynny'n annog pobl i yrru eu plant i'r ysgol, yn hytrach na thrigolion lleol yn cerdded neu'n beicio. Efallai mai newid tymor hir yw nad yw rhieni'n gollwng eu plant ar eu ffordd i'r gwaith, ond mae'n llawer rhy gynnar i wybod hynny eto.

*Ym Mrynbuga, a ellid cyflymu'r 18 lle parcio newydd (o ganlyniad i gau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref) ac ail-wynebu maes parcio'r 'carchar', os gwelwch yn dda?*

Ydym, rydym yn sicr yn ymwybodol o'r rhain ac yn edrych i'w cyflawni cyn gynted â phosibl. Mae gennym ni gyfarfod gyda'r contractwr leinin yr wythnos i ddod - rydyn ni felly'n gobeithio cael rhywbeth yn ei le yn ddiweddarach yr wythnos hon, neu'n gynnar yr wythnos nesaf, i gael y lleoedd newydd i gael eu hail-leinio. Mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu at ail-wynebu maes parcio de Stryd Maryport ond mae'r sefyllfa wedi dod ychydig yn fwy cymhleth oherwydd hoffem osod goleuadau (solar o bosibl), a hefyd ystyried y materion draenio cyn gosod unrhyw darmac - mae rheoliadau draenio newydd yn ffactor. Byddwn yn diweddar Cyngor Tref ar y mater hwn.

*Heb os nac oni bai byddai parcio am ddim dwy awr ym mhobman yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bryniannau byrbwyll, gan helpu'r busnesau. Byddai polisi unffurf ar gyfer y sir gyfan yn ddefnyddiol iawn.*

Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hynny. Mewn gwirionedd, nid yw'r adroddiad yn sôn am y cyfraddau yr ydym yn eu talu ar feysydd parcio am ddim - maent yn costio arian i'r Cyngor, ac

felly'r trethdalwr, er y gallent fod yn 'rhydd' i barcio ynddynt. Mae'r parcio a enwir yn benodol yng Nghwmbrân yn rhad ac am ddim i'r cwsmer ond mae'r busnesau yn talu amdanynt trwy eu rhent - nid oes y fath beth â lle parcio gwirioneddol 'am ddim'.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym yn cytuno i symud ymlaen a pharhau i graffu gyda'r dull a awgrymwyd gan Mark Hand. Rydym wedi cael llawer o adborth ar y pwyntiau trafod hyn. Ar gyfer Cas-gwent, cododd y Cynghorydd Becker bwynt ynglŷn â pharcio am ddim ar Ffordd yr Orsaf gyda gosod dyfeisiau talu ond nid ydym wedi dechrau codi tâl eto. Fe'n cynghorwyd, os nad oes eu hangen, y cânt eu symud. Mae lleoedd '30 munud am ddim' yn y dref o hyd ond gofynnwyd am ddychwelyd '1 awr am ddim'; mae swyddogion yn cysylltu â'r cyngor tref i weld a allant gynorthwyo.

Cododd y Cynghorydd Eason bwyntiau ynghylch cilfachau parcio gwefru trydanol - p'un a oes gennym y cydbwysedd cywir o leoedd, yn enwedig yng Nghil-y-coed, ac am drydanu dros nos am faniau gwerysilla; mae angen i ni ystyried y darpariaethau hyn ar gyfer ymgysylltu â thwristiaeth. Nododd y Cynghorydd Davies fod angen cymaint o wybodaeth â phosibl arnom, gyda strwythur wedi'i hwyluso, yn hytrach na strwythur cyffredinol. Cododd y Cynghorydd Pavia bwyntiau ynghylch mynediad i'r anabl ac a fyddwn yn defnyddio unrhyw gyngor trydydd parti, gan argymhell Tony Crowhurst. Fe'n hysbyswyd am y ddau aelod newydd o staff ym maes gorfodi, a'r gwell sylw o ganlyniad yn y sir. Atgoffodd Mark Hand ni y gall unrhyw ddeiliad bathodyn glas barcio yn rhad ac am ddim.

Gofynnodd y Cynghorydd Brown am fwy o barthau '30-60 munud am ddim' ac am argymhelliad ynghylch pwrpas defnyddio meysydd parcio, a chasglu'r data hwnnw, gan ystyried siopwyr tymor byr a'r effaith ar y stryd fawr. Mae angen i ni ddeall mwy yng ngoleuni Covid. Bydd y Cynghorydd Becker yn bwydo yn ôl i'r grŵp ac i Briffyrd, a'r newidiadau sy'n ofynnol o amgylch Covid. Cododd y Cynghorydd Roden y mater o sut rydym yn rheoli dau gam yr adolygiad Covid cyfredol a'r adolygiad ôl-Covid - cawsom ein sicrhau, os bydd angen adolygiad arall yn nes ymlaen, y gall hynny ddigwydd.

Cododd y Cynghorydd Woodhouse bryderon ynghylch parcio preswyl, a chododd fater aelodau nad ydynt yn Ddethol yn mynychu cyfarfodydd dilynol. Gofynnodd y Cynghorydd Strong pryd y bydd ail-leinio lleoedd a enillwyd ym Mrynbuga o gau CAGC yn digwydd, yn ogystal ag ail-wynebu maes parcio isaf Stryd Maryport. Fe'n cynghorwyd bod cyngor tref yn goruchwyllo'r olaf, ond mae angen ystyried draenio a goleuo. Mae'r Cynghorydd Smith yn croesawu'r adolygiad a hoffai weld system syml ledled Sir Fynwy.

O dan Argymhelliad 8, a mater peiriannau tocynnau, eglurodd Mark Hand fod y problemau sydd gan ddefnyddwyr yn aml yn ymwneud â'r cerdyn sim yn y peiriant, a chryfder y signal. Esboniodd Neil Rosser ymhellach fod y cwmni sy'n rheoli'r peiriannau ar hyn o bryd wedi perfformio profion signal mewn ychydig feysydd yn ddiweddar, a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth inni o ba gyfeiriad y dylem ei gymryd. Mae yna opsiwn i gael cardiau sim gwahanol mewn gwahanol ardaloedd, neu ddefnyddio atgyfnerthir signal (erial sy'n glynu wrth y peiriannau). Peiriant storio yw un o'r systemau newydd sy'n cael ei ddatblygu: oherwydd gellir gohirio'r

broses pan fydd nifer o ddefnyddwyr cydamserol, byddai'r peiriant storio yn arbed y wybodaeth tan bwynt penodol yn y dydd, ac ar yr adeg honno bydd yn uwchlwytho ac yn anfon yr holl manylion talu drwyddo gyda'i gilydd.

O dan Argymhelliad 9, rhoddodd José Bachoir o'r cwmni PayByPhone gyflwyniad am eu system talu ffôn symudol, ac atebodd gwestiynau'r aelodau, gyda sylwadau ychwanegol gan Mark Hand.

*A yw'r system 5G yn barod neu'n gydnaws?*

Ydy, ar yr amod bod gan y defnyddiwr set law sy'n barod 5G, yna mae'n gydnaws.

*Yn y broses gaffael, mae'n dweud bod y cwsmer yn talu trwy neges destun a chyfradd fesul pryniant. A yw hynny'n ffi ar wahân i'r tâl parcio ceir?*

Ydy, byddai'n ffi ar wahân. Pe bai'r ffi parcio yn £1.00 yr awr, byddai'n £1.05. Byddai'r ap yn sôn wrth y cwsmer mai ffi pryniant ychwanegol yw hwn.

*Sut mae'n cysylltu â'n strategaeth orfodi? A yw'n system hollol newydd, gyda ni yn rhoi'r gorau i'r un bresennol?*

Rydym yn darparu gorfodaeth gyda rhyngwyneb rhaglenni cymhwysiad (API) STRING, y byddent yn ei fewnforio i'w dyfeisiau llaw. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'ch darparwr Imperial ar draws 19 awdurdod. Pan fydd y swyddogion yn rhoi i mewn eu lleoliad ar y ddyfais mae'n dangos yr holl sesiynau gweithredol yn y lleoliad hwnnw, gyda'r rhifau cofrestru wedi'u hamlygu mewn gwyrdd. Mae gan unrhyw ddangosiad mewn coch sesiwn sydd wedi dod i ben, ac felly dylent gael tocyn. Mae'n syml iawn, a byddem yn gweithio ochr yn ochr â'ch darparwr presennol. Byddwn yn cwrdd â'r tîm gorfodi'r wythnos hon i drafod y cynigion gyda nhw'n uniongyrchol. Pe bai'r system yn cael ei chymeradwyo, byddai'n rhedeg ochr yn ochr â'r system bresennol, fel bod yr holl opsiynau ar gael.

*A ellir ychwanegu taliadau eraill e.e. trydanu cerbydau trydanol?*

Ar hyn o bryd rydym mewn trafodaethau gyda rhai cwmnïau trydanu cerbydau trydanol fel y gallwn integreiddio â'n datrysiad, a gall cwsmeriaid dalu am eu trydanu cerbyd trydanol trwy ein hap - mae disgwyl yn Ch2/Ch3 y flwyddyn nesaf. Byddem yn dyrannu rhif lleoliad arall i wahaniaethu'r taliadau. Gellir darparu mwy o fanylion yn dilyn y cyfarfod hwn. Ar hyn o bryd, mae'r gwefrau cerbydau trydanol yn cael eu darparu gan gwmni, ac nid yw'r cwsmer yn talu i barcio, dim ond i'w trydanu, gyda'r ffi yn mynd i'r cwmni i dalu ei gostau. Gallwn fynd i'r afael â'r cymhlethdod hwnnw mewn cyfarfod yn y dyfodol.

*A yw'n dâl ychwanegol - a ydym i bob pwrpas yn cynyddu taliadau i'r cwsmer?*

Ydyn, os ydyn nhw'n talu dros y ffôn yna maen nhw'n talu'r 5c ychwanegol. Yn yr enghraifft o docyn £1.00, byddai'r cyngor yn cadw'r £1.00 a bydd ein cwmni'n cymryd y 5 ceiniog. Rydym yn cynnig yr opsiwn o gyfran refeniw. Er enghraifft, yn Ynys Môn, dewisodd cyngor Gwynedd amsugno'r ffi pryniant (4 ceiniog, yn eu hachos nhw) y maent yn ei wrthbwysu â'r refeniw neges destun. Felly, nid yw'r cyngor yn cynyddu'r gost i'r cwsmer - mae'n aros yr un fath â pharcio â thâl.

*A yw'n bosibl ychwanegu arolwg byr ynghylch pam mae pobl yn defnyddio'r maes parcio?*

Nid ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallwn ychwanegu URL yn y dderbynneb e-bost y mae pob cwsmer yn ei dderbyn - gallai'r URL fod yn ddolen i arolwg, pe byddent am gwblhau un. Ni allwn orfodi arolwg ar gwsmeriaid ond gellir cynnig un.

*A yw'r ap yn caniatáu i'r defnyddiwr ddewis ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg?*

Ydy, mae'r ap yn cydnabod y gosodiad ar y ffôn felly mae'n agor yn awtomatig yn iaith y ffôn, a gellir ei newid â llaw yn y gosodiadau.

*Ar hyn o bryd mae yna amrywiaeth o docynnau (diwrnod, tymor, ac ati), a pharcio am ddim ar wahanol adegau - a yw'r rhain yn cael sylw yn yr ap?*

Gallwn gyflunio'r ap i gynnwys cyfradd parcio am ddim. Os oes parcio am ddim 1 awr ar ddydd Sul, er enghraifft, gellir cyrchu hwn ar yr ap. Gallwn wneud diwrnod safonol, yn ogystal â thocynnau tymor a thrwyddedau.

*A fyddai'r ap yn achosi dryswch gyda pharcio i'r anabl? h.y. mae parcio bathodynnau glas yn rhad ac am ddim, ond byddai arwyddion i'w talu gyda'r ap.*

Byddai'n fater o sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyfleu ar y bwrdd tariff. Codwyd y mater hwn ar Ynys Môn, a buom yn gweithio gyda'r cyngor yno i ddiweddarau'r wybodaeth a'i gwneud yn glir iawn i gwsmeriaid.

*Os na fydd y Cyngor yn parhau â'r contract ar ôl y cyfnod prawf, a fyddai'r arwyddion yn cael eu symud ymaith?*

Rydym yn darparu sticeri sy'n mynd ar y byrddau talu ac arddangos neu dariff. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydyn ni'n cymryd drosodd oddi wrth ddarparwr sy'n bodoli eisoes, felly rydyn ni'n tynnu'r hen sticeri ac yn rhoi rhai ni yn lle. Os na fydd ein gwasanaeth yn parhau ar ôl y cyfnod prawf, byddwn yn anfon tîm i dynnu ein sticeri.

*A yw'r tâl pryniant yn amrywio yn ôl y math o docyn?*

Mae'n gyfradd unffurf 5c ar gyfer tocynnau safonol a thocynnau tymor. Mae cyfradd wahanol ar gyfer trwyddedau.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Rydym wedi ystyried cydnawsedd â 5G, a sut mae'r ap yn cysylltu â'n gorfodaeth. Rydym wedi trafod cymorth gyda thrydanu cerbydau trydanol, sy'n cael ei archwilio. Gofynnwyd y cwestiwn ynghylch defnyddio'r ap ar gyfer arolwg i gipio mwy o ddata am ddefnydd maes parcio, ond nid yw hyn yn bosibl, er bod opsiwn i gynnwys URL yn y dderbynneb. Clywsom bryderon ynghylch parcio i'r anabl, ac eglurder ynghylch taliadau, ynghyd â chwestiynau am wahanol docynnau ac arwyddion.

Trafodwyd yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd y cyfarfod nesaf (ail) yn trafod data o ddefnydd maes parcio, yn archwilio cyfran a lleoliad parcio byr yn erbyn arhosiad hir, a



nifer a lleoliadau cilfachau parcio anabl, ynghyd â chyfraddau taladwy ac effeithiau ariannol. Bydd y trydydd cyfarfod yn clywed tystiolaeth gan Gynghorau Tref a Chymuned a chynrychiolwyr busnes. Bydd y pedwerydd cyfarfod yn ystyried Argymhellion 7, 3, 2 ac 11. Bydd y pumed cyfarfod yn ystyried opsiynau i symleiddio'r strwythur ffioedd, adolygu trwyddedau, ac ystyried strategaeth drydanu cerbydau trydanol ac amserlen brisio (Argymhellion 5 a 4.) Bydd y chweched cyfarfod yn ystyried Argymhellion 6, 1 a 10. Bydd y seithfed cyfarfod yn adolygiad o ymatebion ymgynghori.

Atebodd Mark Hand gwestiynau pellach:

*A allwn gael gafael ar ddata gan ddefnyddwyr eraill y system, i ddeall effeithiau ei weithrediad?*

Gallwn ofyn a oes gan y cwmni ddata gan gynghorau eraill y gallwn eu gweld, er y bydd Covid wedi effeithio arno. Mae'r Cynghorydd Batrouni wedi nodi bod Bryste wedi defnyddio'r system ers nifer o flynyddoedd, felly dylai fod â data cywir. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar y system hon yn unig i gynnig dull talu gwahanol, i wneud pethau'n haws, yn hytrach na newid neu gynyddu'r defnydd o faes parcio.

*Ydyn ni'n bwriadu defnyddio agwedd offer marchnata'r system?*

Ydyn, byddai gennym ddiddordeb. Gellir cynnwys lluniau pwrpasol o Sir Fynwy sy'n cynnwys safleoedd a digwyddiadau penodol trwy gydol y flwyddyn e.e. Gŵyl Fwyd y Fenni.

*Nid yw gorfodaeth yn cael ei gwmpasu yn yr Argymhellion - a fydd hyn yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd yn y dyfodol?*

Nid wyf yn credu bod angen i ni adolygu'r gwasanaeth gorfodi. Mae eu cylch gwaith a'u cwmpas wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth; ein cyfrifoldeb ni yw ei wneud. Tua diwedd yr adolygiad, gallai'r tîm roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae eu gwaith wedi mynd (nifer y tocynnau a gyhoeddwyd, refeniw maes parcio, ac ati)

*Ydyn ni'n gwybod pryd fydd gweithdai'n cychwyn?*

Byddai'n dda cadw momentwm, gan edrych o bosibl ar gyfarfodydd misol. Rydym wedi cywasgu'r amserlen o 7 cyfarfod i 6, gan fynd â ni hyd at fis Mai.

Cytunwyd i Mark Hand weithredu'r amserlen, gyda chyfarfodydd am 5yh.

The meeting ended at **11.00 am**